OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1988

# Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015

*Awdurdodiad Llys*

**Cyfnod hwyaf awdurdodiad ar gyfer plant sydd ar remánd**

**7.**—(1) Y cyfnod hwyaf y caiff llys, o bryd i'w gilydd, awdurdodi cadw plentyn, a roddwyd ar remánd i lety awdurdod lleol o dan adran 91(3) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (**1**), mewn llety diogel (pa un ai am gyfnod cyntaf ynteu cyfnod ychwanegol) yw cyfnod y remánd.

(2) Mae'r cyfeiriad at "awdurdod lleol" ym mharagraff (1) yn cynnwys awdurdod lleol yn Lloegr.

(**1**) 2012 p. 10.